Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanhari
# Llanhari
# Pontyclun
# Rhondda Cynon Taf
# CF72 9XE

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanhari

Ym mis Medi 2012, ehangwyd Ysgol Llanhari i ddarparu addysg i ddisgyblion o 3 mlwydd oed hyd at 19 mlwydd oed. Nid yw'r ysgol wedi cyrraedd ei llawn dwf eto ac eleni mae ganddi ddosbarthiadau o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 5 a Blwyddyn 7 i Flwyddyn 13. Mae ganddi 631 o ddisgyblion i gyd, 412 yn yr adran uwchradd, yn cynnwys 63 yn y chweched dosbarth a 107 disgybl yn yr adran gynradd.

Lleolir yr ysgol ym mhentref Llanhari. Mae'r adran uwchradd yn derbyn disgyblion o ardal eang sydd yn cynnwys Tonyrefail, Gilfach Goch, Meisgyn, Llanharan, Pencoed a Llantrisant. Mae'r adran gynradd yn derbyn disgyblion o bentrefi cyfagos yn cynnwys Llanhari, Pontyclun a Thonysguboriau.

Mae bron pob disgybl yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae 41% yn siarad Cymraeg gartref ond mae 90% o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Mae tua 8% o'r disgyblion yn gymwys i ginio ysgol am ddim, sydd yn sylweddol is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd. Mae 9% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol. Cafodd y pennaeth ei phenodi ym Medi 2014.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Llanhari yn darparu cyfleoedd symbylol a diddorol i'w disgyblion i sicrhau eu bod yn datblygu'n ddinasyddion gwaraidd a gwybodus. Mae perthynas weithio adeiladol rhwng y staff a'r disgyblion ac, yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn mwynhau'n fawr eu hamser yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol naws Gymreig a chartrefol sy'n cyfrannu at ymdeimlad gryf o gymuned. Darpara'r ysgol ystod eang o gyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu'n ddiwylliannol, yn gorfforol ac yn greadigol. Mae ymagweddau'r rhan fwyaf o'r disgyblion tuag at eu gwaith yn gadarnhaol iawn ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd academaidd a chymdeithasol cryf yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Caiff yr ysgol ei harwain yn fedrus gan y pennaeth a'r uwch dîm arwain ac mae ansawdd yr addysgu'n gyson dda.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella cyflawniad y disgyblion mwyaf abl ym mhob cyfnod allweddol

A2 Cyflwyno ystod ehangach o gyfleoedd i'r disgyblion i ysgrifennu'n estynedig yng nghyfnod allweddol 2

A3 Cynllunio cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i'r disgyblion ddatblygu'u huwchfedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A4 Ffurfioli'r prosesau o osod ac adolygu targedau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr adran uwchradd

A5 Sicrhau bod yr arweinwyr yn arfarnu cynnydd yr ysgol yn erbyn ysgolion tebyg

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Dim mewn gweithgarwch dilynol**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf.

Yn yr adran gynradd, mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n fuan iawn. Maent yn meithrin geirfa eang ac yn ei defnyddio yn ystyrlon wrth drafod eu teimladau a'u syniadau. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i fynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion synhwyrol i gwestiynau. Yn yr adran uwchradd, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau cyfathrebu cadarn. Maent yn mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio geirfa estynedig a chystrawen gywir. Mae lleiafrif yn meddu ar Gymraeg raenus ac yn siarad yn huawdl. Yn y chweched dosbarth, mae gan lawer o'r disgyblion fedrau ieithyddol cryf iawn sy'n eu galluogi i drafod materion dwys mewn modd soffistigedig, er enghraifft wrth iddynt archwilio strwythur asidau niwcleig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n barchus ar syniadau ei gilydd ac yn trafod y rhain mewn modd aeddfed, er enghraifft wrth ystyried y trychineb mwyngloddio yn Senghenydd.

Mewn llawer o wersi ar draws y cyfnodau, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn adeiladu'n fuddiol arno. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau darllen cryf. Mewn llawer o wersi, maent yn defnyddio'r rhain i ddistyllu gwybodaeth berthnasol o ffynonellau amrywiol. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn uchel yn rhugl gan ddefnyddio mynegiant perthnasol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion cynradd yn ysgrifennu'n feddylgar a dychmygus gan ddangos gafael sicr ar ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn defnyddio paragraffau i gyflwyno'u gwaith yn drefnus ac yn ystyried y gynulleidfa'n dda. Mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu diddorol a dychmygus, er enghraifft wrth drafod taith afal drwy'r corff. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n ddigon estynedig ar draws y cwricwlwm. Yn yr adran uwchradd, mewn llawer o bynciau, mae'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ynghylch ystod eang o destunau symbylol fel cyfiawnhau dadleuon o blaid ac yn erbyn crefydd. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn arddangos medrau creadigol cryf, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson yn dychmygu eu hunain yn filwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Fodd bynnag, mae ychydig o'r disgyblion yn gwneud camgymeriadau gramadegol neu sillafu sylfaenol yn y Gymraeg a Saesneg.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau rhifyddol ac yn eu cymhwyso'n gywir, er enghraifft wrth gyfrifo cyfradd dadgoedwigo yn yr Amazon. Mae llawer yn datblygu'u medrau llunio graffiau'n dda wrth osod graddfeydd synhwyrol ar gyfer echelinau, plotio pwyntiau data'n gywir a dewis llinellau ffit orau i amlygu patrymau yn y data. Mae'r disgyblion hyn yn dehongli'r data'n feddylgar ac mae ychydig ohonynt yn cynnig ystod o ddadleuon rhesymegol i esbonio'r patrymau hyn. Fodd bynnag, yn yr adran uwchradd, nid yw ychydig o'r disgyblion yn adalw cysyniadau mathemategol sylfaenol yn gywir, sydd yn cyfyngu ar eu gallu i wneud cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn fuddiol, er enghraifft drwy ddylunio a chreu hetiau ar gyfer achlysurau gwahanol a dysgu sut i fyrfyfyrio yn eu gwersi cerddoriaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu deheurwydd yn fuddiol, er enghraifft wrth ymdrin â lensau a drychau yn eu gwersi gwyddoniaeth a datblygu eu medrau pêl yn eu gwersi ymarfer corff.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth (TGCh) a chyfathrebu yn briodol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu huwch fedrau TGCh, er enghraifft drwy greu modelau neu siartiau mwy soffistigedig.

Mae perfformiad yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi amrywio dros amser ac yn uwch na'r perfformiad cyfartalog mewn ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn uwch na pherfformiad ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o un cyfnod allweddol i'r llall.

Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill 5 TGAU gradd A*-A neu gyfwerth wedi amrywio dros amser ond, yn gyffredinol, mae'n is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad bechgyn a merched dros y tair blynedd diwethaf yn y dangosyddion sydd yn cynnwys 5 gradd TGAU A*-C ac A*-G neu gyfwerth yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg. Mae cyfran y merched sydd yn ennill 5 TGAU gradd A*-A neu gyfwerth yn uwch na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae deilliannau'r bechgyn yn y mesur hwn yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cymysg yn eu pynciau dewisol yn y chweched dosbarth. Dros amser, mae perfformiad y disgyblion yn y trothwy lefel 3, y sgôr pwyntiau ehangach, cyfran y disgyblion sydd yn ennill 3 gradd A*-A neu gyfwerth a'r cyfran sydd yn ennill 3 gradd A*-C yn gyffredinol yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Serch hyn, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o ystyried eu perfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Yn gyffredinol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'u gallu i ymdrin â materion cymhleth yn fedrus wrth ddilyn eu cyrsiau.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ieithyddol a rhifyddol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Chwarea'r disgyblion rôl lawn mewn creu ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ysgol. Mae ymddygiad y rhan fwyaf ohonynt yn dda ac maent yn barchus at eu hathrawon, ymwelwyr a'u cyfoedion. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf yn credu bod yr ysgol yn delio'n effeithiol gyda'r achosion prin o fwlio. Mae bron bob un yn hoffi dod i'r ysgol.

Mae'r cyngor ysgol yn grŵp gweithgar sy'n ymgymryd â rolau arwain yn effeithiol. Maent wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy gyfrannu at y polisi gwrth-fwlio a gwella'r dewis o fwyd iach sydd ar gael yn y ffreutur. Mae llawer o grwpiau eraill megis yr 'Eco-frwydrwyr', y grŵp hawliau plant a'r 'dewiniaid digidol', hefyd yn cyfrannu'n fuddiol at waith yr ysgol. Mae grŵp y 'dreigiau doeth' yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol yr iaith Gymraeg gan y disgyblion. Mae aelodau'r chweched dosbarth yn cynnal sesiynau buddiol lle gall disgyblion iau'r ysgol alw heibio am sgwrs i drafod unrhyw beth sydd yn eu poeni.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall yn glir bwysigrwydd bwyta'n iach. Mae'r mwyafrif yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol buddiol sydd yn cynnwys clybiau dawns a chwareon a chlwb "dodgeball" sy'n cael ei redeg gan y chweched dosbarth. Mae pob disgybl yr yr adran gynradd yn anelu at gerdded neu redeg milltir pob dydd.

Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn dyfalbarhau â'u tasgau yn llwyddiannus. Maent yn gryf eu cymhelliant ac yn gweithio'n gynhyrchiol yn annibynnol a chyda'u cyfoedion. Mae llawer yn arddangos dygnwch wrth ddyfalbarhau â thasgau cymhleth. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau rhyngbersonol cryf iawn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan brwd mewn gweithgareddau diwyllianol buddiol, er enghraifft drwy gystadlu mewn Eisteddfodau yr Urdd a pherfformio mewn sioeau ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn dda.

Ym mron pob un o'r gwersi, mae'r athrawon yn fodelau iaith da. Maent yn meithrin perthynas weithio dda iawn gyda'r disgyblion. Mewn llawer o achosion, ceir cynllunio manwl gyda gweithgareddau diddorol sydd yn sicrhau cynnydd cyson. Mewn llawer o bynciau, mae'r athrawon yn cynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu'u medrau cyfathrebu drwy gynnig ymdadroddion neu gymalau defnyddiol iddynt eu hefelychu neu'u haddasu. Mae'r athrawon hyn yn cynnig esboniadau trylwyr a diddorol i ymestyn ymwybyddiaeth bynciol y disgyblion. Mae tempo sionc i lawer o'r gwersi hyn a disgwyliadau uchel gan yr athrawon o ran ymddygiad a chyflawniad y disgyblion. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r athrawon yn datblygu annibyniaeth y disgyblion yn llwyddiannus trwy'u trwytho mewn arferion buddiol. Maent, er enghraifft, yn mynnu bod y disgyblion yn defnyddio geiriadur yn lle gofyn am gyfieithiad neu'n estyn pecyn cymorth yn hytrach na gofyn am gyfarwyddiadau sylfaenol.

Mewn ychydig o achosion, ceir addysgu ysbrydoledig. Mae'r athrawon yn arddangos brwdfrydedd heintus, ac yn cynllunio tasgau uchelgeisiol a symbylol i annog y disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mewn ychydig o wersi, mae cyflwyniadau'r athrawon yn rhy hir, sydd yn cyfyngu ar y cyfleoedd i'r disgyblion ryngweithio â'r athro neu ddisgyblion eraill. Mewn ychydig iawn o bynciau, ceir tasgau ailadroddus sydd yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ymateb i sefyllfaoedd anghyfarwydd.

Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn cwestiynu'r disgyblion mewn modd crefftus i'w symbylu i ymestyn eu hymatebion. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r athrawon yn cylchu'r dosbarth yn wyliadwrus er mwyn cynnig cyngor llafar adeiladol i ddisgyblion penodol. Mewn llawer o lyfrau, mae'r athrawon yn cynnig sylwadau defnyddiol i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith ac yn rhoi iddynt dasgau ategol i wella agweddau penodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion bob amser yn cwblhau'r tasgau hyn.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol sydd yn ysgogi a herio disgyblion o bob oedran. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â'i hysgolion partner cynradd i sicrhau bod y cwricwlwm uwchradd yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol disgyblion.

Mae'r adran gynradd wedi ymateb i ofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn effeithiol drwy gynllunio gwaith thematig diddorol. O ganlyniad, mae'r gwersi'n cynnwys profiadau dychmygus i'r disgyblion sydd yn datblygu'u medrau ac yn ennyn eu chwilfrydedd. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn ysgrifennu mewn modd digon estynedig yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y pynciau ac o fewn sesiynau 'sgiliau' yn gynhwysfawr. Yn y cynradd a'r uwchradd, mae cyfleoedd priodol ar gyfer cymhwyso medrau TGCh disgyblion ar draws y pynciau. Fodd bynnag, nid oes cynllunio digon manwl i sicrhau eu bod yn datblygu eu huwch fedrau TGCh.

Yng nghyfnod allweddol 4, darpara'r ysgol ystod addas o gyrsiau academaidd a galwedigaethol i ddiwallu diddordebau a galluoedd y disgyblion. Cynigia'r ysgol ystod briodol o gyrsiau yn y chweched dosbarth drwy weithio mewn partneriaeth ag ysgol arall.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr y tu allan i'r ystafell ddosbarth sydd yn ategu profiadau'r disgyblion. Er enghraifft, mae ymweliadau allgyrsiol i leoliadau fel y Pwll Mawr ym Mlaenafon, Bae Caerdydd a Phen-y-fan, fel rhan o'r prosiect Bannau Brycheiniog. Yn yr adran gynradd, mae'r ysgol wedi cynllunio'n greadigol ac ystyried safbwyntiau'r disgyblion wrth ddatblygu'r ardal werdd.

Mae ymagwedd flaengar ac arbrofol gan yr ysgol o ran datblygu'r cwricwlwm i roi profiadau symbylol i'r disgyblion ddatblygu'u medrau trefniadol a chreadigol, er enghraifft drwy gynnig her i ddisgyblion Blwyddyn 8 drefnu a chynnal diwrnod mabolgampau i Flwyddyn 3 a Blwyddyn 4.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol, gofalgar a Chymreig sy'n hyrwyddo ymdeimlad cryf o gymuned.

Mae systemau cadarn ar gyfer olrhain a monitro cynnydd, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Mae olrhain ar lefel adrannol yn drwyadl ac yn galluogi athrawon i wybod yn union pa elfennau sydd angen i ddisgyblion eu gwella. Yn gyffredinol, gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth hon er mwyn adnabod disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni a darparu ymyraethau priodol iddynt.

Mae cydweithio agos rhwng y swyddog llesiant, y dirprwy bennaeth a'r tîm o arweinwyr safonau cyrhaeddiad yn sicrhau bod gofal gwerthfawr ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol a chymdeithasol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r fenter 'learner athlete' i wella presenoldeb ac ymagweddau disgyblion bregus yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n gynhyrchiol â phartneriaethau allanol er mwyn cefnogi lles disgyblion penodol, lle bo'r angen.

Mae'r trefniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr adran gynradd yn drwyadl ac yn sicrhau eu bod yn derbyn darpariaeth gref. Yn yr adran uwchradd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn hefyd yn effeithiol. Mae'r cynlluniau datblygu personol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys strategaethau defnyddiol i'w cefnogi. Fodd bynnag, yn yr adran uwchradd, nid yw'r ysgol yn adolygu cynnydd y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn erbyn eu targedau personol yn ffurfiol.

Mae'r ysgol yn cynllunio a darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sy'n datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyfraniadau nifer o siaradwyr allanol didddorol yn cyfrannu'n fuddiol at ddealltwriaeth y disgyblion o ystod eang o faterion cymdeithasol. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o sut i gadw eu hunain yn ddiogel a byw bywyd iach. Mae'r trefniadau i sicrhau bod y disgyblion yn yfed a bwyta'n iach yn briodol.

Mae parchu diwylliannau amrywiol a hybu goddefgarwch yn agweddau effeithiol o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol ac i ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn, er enghraifft drwy drafod eu syniadau gydag aelodau'r senedd.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni trwy amrywiaeth o ffyrdd ac mae defnydd yr ysgol o gyfryngau cymdeithasol yn gryfder amlwg. Mae'r adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr, yn bersonol ac yn nodi'r camau y mae angen i ddisgyblion eu cymryd er mwyn gwneud cynnydd pellach.

Mae gan yr ysgol drefniadau a pholisïau addas er mwyn atal a mynd i'r afael â bwlio. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel drwy ddarparu profiadau dysgu cyfoethog mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Gyda chymorth gweddill yr uwch dîm arwain, mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a chyfeiriad strategol pwrpasol i'r ysgol. Mae'r staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac mae swyddogaethau a chyfrifoldebau arwain wedi eu dosrannu'n synhwyrol.

Mae arweinwyr yn rheoli newid yn llwyddiannus ac yn cefnogi athrawon a staff eraill i dorri tir newydd, er enghraifft wrth iddynt baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd neu wrth ddefnyddio elfennau o feddylfryd y cyfnod sylfaen mewn dosbarthiadau cyfnod

allweddol 2. Mae'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion ysgol-gyfan ac yn ffocysu'n agos ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt gysylltiadau defnyddiol ag adrannau penodol ac adnabyddiaeth dda o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent yn cyfrannu'n adeiladol at y cynlluniau gwella ac yn dyfnhau eu gwybodaeth am safonau a'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ystod eang o wybodaeth am yr ysgol er mwyn ei herio a'i chefnogi yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gylch o weithgareddau hunanarfarnu a monitro ansawdd trylwyr sydd wedi ei sefydlu'n gadarn. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth drylwyr o'r ysgol ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn yr adroddiad hunanarfarnu cynhwysfawr.

Mae arweinwyr yn casglu tystiolaeth werthfawr yn uniongyrchol trwy arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cymharu ei pherfformiad ei hunan yn erbyn ysgolion tebyg yn ddigon trylwyr bob tro. Mae'r ysgol yn canfod barn disgyblion, rhieni a staff yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus i lunio blaenoriaethau, er enghraifft ar addysgu, lles a Chymreictod.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun gwella yn ddogfen faith sy'n blaenoriaethu'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w datblygu a adnabyddir gan yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau uchelgeisiol, cyfrifoldebau clir, costau a therfynau amser priodol. Mae'n cynnwys camau gweithredu synhwyrol gyda meini prawf llwyddiant sydd, ar y cyfan, yn fesuradwy. Dros amser, mae cynllunio'r ysgol wedi sicrhau deilliannau cadarnhaol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, cynnydd da mewn llawer o bynciau yn y chweched dosbarth ac addysgu o ansawdd cyson uchel.

Mae rheolwyr canol yn llunio cynlluniau gwella sy'n ymateb yn ddilys i arfarniadau'r ysgol ac adran. Fodd bynnag, mae ansawdd arfarniadau adrannol yn amrywio ac nid yw lleiafrif ohonynt yn cynnwys digon o wybodaeth am y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn cynnal diwylliant cefnogol iawn i alluogi pob un o'i staff i ddatblygu'n broffesiynol. Ymateba'r ysgol yn greadigol i anghenion datblygu staff unigol a materion ysgol gyfan trwy drefnu dyddiau hyfforddiant mewnol, rhannu arfer dda ac arsylwi a chraffu ar waith ar y cyd. Mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol ag ysgolion eraill i ddatblygu syniadau a rhannu arfer dda. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cyrsiau y mae'r ysgol yn eu trefnu ar gyfer y cyfnod sylfaen i rannu arferion da gydag ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gryf ac mae amcanion pob aelod o staff yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb ac adnoddau yn yn ofalus. Maent yn rhagweld anawsterau cyllidol yn fuan ac yn cynllunio'n fedrus ar gyfer dygymod â risgiau posibl i'r dyfodol. Maent yn sicrhau bod cysylltiad agos rhwng penderfyniadau gwario a blaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud y gorau o'r adeiladau er mwyn cefnogi'r dysgu a'r addysgu, yn enwedig yn yr adran gynradd ble mae'r amgylchedd ddysgu yn ddeniadol a symbylol iawn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o grantiau i gynorthwyo cyflawniad disgyblion mwyaf bregus yr ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/12/2017